| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad:** | **9fed Fawrth 2023** |
| **Pwnc / Testun:** | **Sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Mon.** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cyng. Nicola Roberts** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Christian Branch, Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Dewi Francis Jones.**<br>**01248 752420**<br>**dewijones@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Mae’n berthnasol i’r holl Aelodau** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Gofynnir i’r Cyngor llawn ystyried yr argymhellion canlynol a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2023:

1. **I sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.**

2. **I ddiwygio’r Cyfansoddiad er mwyn diddymu’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ac i ddirprwyo i’r Swyddog Monitro yr hawl i weithredu’r newidiadau yna.**

**Cefndir:**
Penderfynodd Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd i ddod a’r cytundeb cydweithio ar faterion polisi cynllunio i ben ar y 31 Mawrth 2023.

Golygir hyn bod rhaid diddymu’r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd presennol a chael trefniadau ar wahân ar gyfer y ddau awdurdod, er mwyn cyfrannu at baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd a gwaith polisi cynllunio cysylltiedig.

Bwriedir felly greu “Pwyllgor Polisi Cynllunio” (y Pwyllgor) ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.

Bydd gan y Pwyllgor holl swyddogaethau y Cyd Bwyllgor sydd fel a ganlyn:-

1. Bod yn gyfrifol dros baratoi Cynllun Datblygu Lleol a chynnig cyngor arno cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor.

2. Cyflwyno cytundeb cyflawni ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol i'r Cyngor gytuno arno.

3. Derbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a chynnig cyngor arno cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor.

4. Derbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (hyd at 2026) a chynnig cyngor arno cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor.

5. Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

6. Bod yn gyfrifol am adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol i'r Cyngor gytuno arno.

7. Derbyn a chynghori ar restr ffi ardoll ddrafft ar gyfer ymchwiliad cyhoeddus ac ar argymhellion yr Arolygwr cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith am benderfyniad.

8. Derbyn a chytuno ar adroddiad blynyddol ynghylch y drefn llywodraethu ac ariannu.

9. Penodi unrhyw banel neu weithgor er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei swyddogaethau.

**Aelodaeth y Pwyllgor:**
11 Aelodaeth gyda chydbwysedd gwleidyddol. Yn amodol ar reolau cydbwysedd Gwleidyddol.

Cworwm y Pwyllgor fydd o leiaf hanner ei aelodau wedi ei dalgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf (sef 5).

**Hawliau Pleidleisio:**
Aelodau sydd wedi'u penodi'n briodol yn unig fydd a hawliau pleidleisio ar y Pwyllgor ac fe'u gelwir yn "Aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio".

Ni chaniateir penodi aelodau dirprwyol ar gyfer y rheini a benodwyd i eistedd ar y Pwyllgor.

**Cyfarfodydd y Pwyllgor**
Gweithredir y pwyllgor yn unol â rheolau sefydlog y Cyngor.

Noder bod y Gwasanaeth wrthi'n recriwtio Tîm Polisi Cynllunio newydd yn dilyn y penderfyniad i ddod â'r trefniadau cydweithio gyda Chyngor Gwynedd i ben.

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod yr angen i sicrhau bod ganddo ddigon o gapasiti a gallu i ymgymryd â'i ddyletswyddau polisi cynllunio yn effeithiol. Bydd gweithrediad a gweinyddu'r Pwyllgor felly yn ddibynnol ar ganlyniad llwyddiannus y prosesau recriwtio parhaus.

**B – Pa opsiynau eraill bu I chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

| |
|---|
| Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2022 i ddod a'r cytundeb cydweithio ar faterion polisi cynllunio i ben (Gorffennaf 2022), diddymu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd presennol a chael trefniadau ar wahân ar gyfer y ddau awdurdod.<br><br>Ni chredir fod dewis ond creu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd i allu cyflawni a phenderfynu ar y materion hynny mae angen eu gwneud yn y broses o baratoi a gweithredu cynllun datblygu lleol. |

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae hwn yn benderfyniad i'r Cyngor Llawn |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Cytunodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor i ddod a'r cytundeb cydweithio ar faterion polisi cynllunio i ben (Gorffennaf 2022), diddymu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd presennol a chael trefniadau ar wahân ar gyfer y ddau awdurdod. Pwrpas yr adroddiad felly yw i'r Cyngor benderfynu a chymeradwyo. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Mae cyllideb eisoes yn bodoli er mwyn i'r Gwasanaeth ymgymryd â'i dyletswyddau polisi cynllunio. |

| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Mae creu Tîm Polisi Cynllunio newydd am rhoi perchnogaeth cant y cant ar faterion cynllunio i Ynys Môn, ac am caniatau i'r Cyngor canolbwyntio ar anghenion trigolion awdurdod cynllunio Ynys Môn.<br>Bydd creu Pwyllgor Polisi Cynlluno yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu addas mewn lle ar gyfer yr uchod. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Does dim disgwyl unrhyw gostau ychwanegol. |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | Ddim yn berthnasol. |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Mater i'r Cyngor yw'r trefniadau llywodraethu ar gyfer materion polisi cynllunio. |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | Ddim yn berthnasol. |
| **6** | **Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.** | Ddim yn berthnasol. |
| **7** | **Sylwch ar unrhyw effaith bosib y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | Byddai'r pwyllgor newydd yn gweithredu, a chael eu rheoli, drwy gydymffurfiaeth llawn hefo polisi Cymraeg y Cyngor. |

| **E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif-weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Yr angen i nodi'r broses recriwtio barhaus i sefydlu'r Tîm Polisi Cynllunio newydd. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):** |
|---|
| |